**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD GWENER, 5 CHWEFROR 2021**

**BWRDD ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY'R CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: L.Jones a/ac A.Wingrave

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

N.Pearce, S.Brennan, C.Millis, C.Morris, C.Jones, M.Shaw, E.Barrett, N.Headon a/ac C.Plowman

**Gwahoddedigion Craffu:**

Councillor R.Taylor (Is-gadeirydd)

---

1. **APPOINTMENT OF CHAIRPERSON**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A. Wingrave yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr a 14 Chwefror 2020.

3. **LLWYBR CYHOEDDUS HONEDIG TRWY DDEFNYDDIO PONT GERDDWYR Y RHEILFFORDD O RIF 20 I'R A4109**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo Gorchymyn Addasu o dan Adran 53 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i gofrestru'r llwybr a ddangosir A – B ar gynllun Rhif 1 ac os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau, cadarnhau'r un peth â gorchymyn diwrthwynebiad.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Mae digon o dystiolaeth bod y bont gerddwyr wedi bod yn destun cyfnod o ddefnydd di-dor am o leiaf 20 mlynedd. Mae hyn yn bodloni darpariaethau adran 31 o Ddeddf Priffyrdd 1980 sy'n rhagdybio bod y ffordd wedi'i neilltuo fel priffordd i'r cyhoedd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

4. **CYNNIG I EHANGU'R GWASANAETH PRESENNOL A DDARPERIR GAN Y TÎM CYSWLLT CAMDDEFNYDDIO SYLWEDDAU SYLFAENOL (PSALT)**

Roedd yr Aelodau'n cefnogi'r diwygiad i'r argymhelliad a ddarparwyd gan swyddogion, fel y nodir isod.

**Penderfyniad:**

Rhoi cymeradwyaeth i'r Pennaeth Cyfranogiad (Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes) ymrwymo i gytundeb(au) grant gyda Meddygfa Dyffryn Aman Tawe i ymestyn y gwasanaeth presennol a ddarperir gan Wasanaethau Gofal Sylfaenol y Tîm Cyswllt Camddefnyddio Sylweddau Sylfaenol (PSALT), gan roi sylw i reol 7.1.21 o'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau lle mae cytundeb grant yn cael ei eithrio o'r gofyniad am dendro cystadleuol.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

Sicrhau y gellir rhoi'r trefniadau angenrheidiol ar waith i gyflawni penderfyniad y Bwrdd Cynllunio Ardal, i ddiwallu anghenion a nodwyd mewn perthynas â Therapi Amnewidion Opiadau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**